# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 25 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Cyfrannu i Ddeddfwriaeth San Steffan

**C7 Ieuan Wyn Jones:** Sut y bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn sicrhau y gellir cyfrannu'n effeithiol i ddeddfwriaeth sydd ar droed yn San Steffan ar ddarlledu a chyfathrebu? (OAQ9047)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Yr wyf eisoes wedi bod yn dynodi materion i Gymru sydd yn deillio o Bapur Gwyn Llywodraeth Prydain ar gyfathrebu. Cyflwynais bapur am hyn, ac fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor Diwylliant ddoe. Yr ydym wedi trefnu dadl mewn Cyfarfod Llawn ar 8 Chwefror. Mae hwn yn esiampl dda o'r Cynulliad yn ystyried cynigion deddfwriaethol sylfaenol mewn da bryd cyn i Fesur gael ei gyhoeddi. Fel gweinyddiaeth, byddwn yn bwydo safbwyntiau'n ôl i San Steffan. Yr wyf yn awyddus i glywed safbwyntiau Aelodau'r Cynulliad.

### Y Cwpan Ryder

**C8 Brian Gibbons:** Pa gamau fydd Jenny Randerson yn eu cymryd i sicrhau y daw manteision economaidd i ardaloedd y tu allan i Went, os penderfynir mai yng Nghymru y cynhelir y gystadleuaeth Cwpan Ryder nesaf? (OAQ9021)

**Jenny Randerson:** Chwaraeir am y Cwpan Ryder bob dwy flynedd rhwng yr Unol Daleithiau ac Ewrop, ac mae'r lleoliad yn newid bob yn ail rhwng safleoedd yn Ewrop ac America. Caiff y Cwpan Ryder nesaf ei chwarae yn Belfry yn ddiweddarach eleni, ac yn 2005 Iwerddon a fydd yn gartref iddi.

Mae'r manteision economaidd posibl a'r manteision eraill i Gymru yn sgîl cynnal y twrnamaint Cwpan Ryder yn sylweddol. Dyna paham y mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gefnogi'r cais am Gwpan Ryder 2009.

Os bydd Cymru yn llwyddiannus, bydd y Cynulliad, ar y cyd â Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a'r awdurdodau lleol, sydd wedi addo eu cefnogaeth, yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd cymaint â phosibl o Gymru yn elwa o'r digwyddiad.

Yr ydym yn aros am benderfyniad y Gymdeithas Golffwyr Proffesiynol ynghylch pa wlad a fydd yn cynnal y cwpan yn 2009 gyda chryn ddiddordeb.

### Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

**C9 Helen Mary Jones:** Sut y bydd Jenny Randerson yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn y byd chwaraeon yng Nghymru? (OAQ9083)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi llwyr ymrwymo i hynny. Disgrifir cynlluniau Cyngor Chwaraeon Cymru i annog cyfle cyfartal yn y byd chwaraeon yn y strategaeth a gyhoeddwyd ganddo, 'Pobl Ieuainc

yn Gyntaf: Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'. Ymhlith y cynlluniau y mae dynodi ffyrdd positif o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cynyddu proffil menywod yn y byd chwaraeon a darparu cyfleoedd i bobl anabl.

Yn benodol, mae'r Cyngor Chwaraeon wedi sefydlu fforwm cynhwysiant cymdeithasol yn y byd chwaraeon, a gall y fforwm hwn fanteisio ar hyd at £8 miliwn o arian loteri dros y pum mlynedd nesaf. Y nod yw cefnogi ffyrdd newydd o fynd i'r afael â hen broblemau ar lefel leol sy'n rhwystro grwpiau penodol rhag cyfranogi mewn rhaglenni chwaraeon.

## Y Consortiwm Cymru'n Creu

**C10 Cynog Dafis:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad am sefydlu'r consortiwm Cymru'n Creu? (OAQ9063) [W]

**Jenny Randerson:** Cyhoeddais yn y ddadl ar 'Diwylliant Cytûn' yn y Cyfarfod Llawn fy mod yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i Cymru'n Creu. Byddaf yn cadeirio'r fforwm, ac yn dymuno i'r aelodau nodi materion y gallant gydweithio arnynt er mwyn cyflawni amcanion pendant er lles ymarferwyr a chynulleidfaoedd, ac er mwyn gwneud cyfraniad gwirioneddol i'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.

## Bod yn Gartref i'r Eisteddfod Genedlaethol

**C11 Ann Jones:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch pa mor bwysig ydyw i Ddinbych fod yn gartref i'r Eisteddfod Genedlaethol yr haf hwn? (OAQ9094)

**Jenny Randerson:** Drwy fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Ddinbych yr haf eleni nid oes amheuaeth y daw'r dref i lygad y cyhoedd, a bydd yn sicr o gynyddu proffil ac ymwybyddiaeth o'r ardal. Bydd dros 160,000 o bobl yn ymweld â'r Eisteddfod bob blwyddyn. Gall yr Eisteddfod ddwyn yn ei sgîl fanteision economaidd mawr i'r ardal lle'i cynhelir. Amcangyfrifir bod yr Eisteddfod wedi cynhyrchu £6 miliwn i'r economi leol yn Llanelli y llynedd.

## Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008

**C12 Jonathan Morgan:** A yw Jenny Randerson wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch cais gan ddinas o Gymru i fod yn brifddinas diwylliant Ewrop yn 2008? (OAQ9077) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Pobl Ifanc a Chwaraeon

**C13 David Lloyd:** Sut y mae Jenny Randerson yn bwriadu datblygu'r modd o sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon? (OAQ9055) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cymorth i'r Celfyddydau yng Ngorllewin Cymru

**C14 Christine Gwyther:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch y cymorth a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i'r celfyddydau yng ngorllewin Cymru? (OAQ9025) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Codi Proffil yr Iaith Gymraeg yng Nghymru

**C15 Ieuan Wyn Jones:** Pa fesurau fydd y weinyddiaeth yn eu cyflwyno i godi proffil yr iaith Gymraeg yng Nghymru? (OAQ9046) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Datblygu Cyfleusterau Llyfrgell yng Nghymru

**C16 Dafydd Wigley:** Sut y mae Jenny Randerson yn bwriadu datblygu cyfleusterau llyfrgell yng Nghymru? (OAQ9053) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Pwysigrwydd Cyfleusterau Diwylliannol**

**C17 Phil Williams:** Pa ymdrechion sydd wedi'u gwneud i fesur pwysigrwydd cyfleusterau diwylliannol o safbwynt denu mewnfuddsoddiad? (OAQ9048) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Amcanion y Gronfa Cyfleoedd Newydd**

**C18 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad byr am amcanion y gronfa cyfleoedd newydd yng Nghymru? (OAQ9058) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rownd Terfynol Cwpan yr FA**

**C19 Rosemary Butler:** Sut y bydd Cymru ar ei hennill am fod rownd derfynol Cwpan yr FA yn cael ei chynnal yn Stadiwm y Mileniwm? (OAQ9018)

**Jenny Randerson:** Cwpan yr FA yw'r un digwyddiad drwy'r byd i gyd a gaiff y mwyaf o sylw ar y teledu a rhydd gyfleoedd ardderchog i godi proffil Cymru yn rhyngwladol, gan sicrhau inni fanteision i'r economi, i'r byd twristiaeth a'r byd chwaraeon.

Bydd Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn cydweithio'n agos, a chyda Chyngor Dinas a Sir Caerdydd, Siambr Fasnach Caerdydd a'r Cynulliad, er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a geir yn sgîl y digwyddiad hwn.

Mae'n bwysig bod yr holl sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad hwn yn gweithredu fel Tîm dros Gymru, gyda strategaeth glir, er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd lleol a'r wlad gyfan yn cael y manteision gorau posibl.

**Sefydlu Cronfa Ffilm i Gymru**

**C20 Kirsty Williams:** Pa gamau ymlaen a gymerwyd o ran sefydlu cronfa ffilm i Gymru? (OAQ9097)

**Jenny Randerson:** Bu inni ymrwymo drwy'r cytundeb partneriaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cronfa ffilm i Gymru, er mwyn meithrin a hybu rhagoriaeth sinematig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cyfarfûm â Sgrîn a Chyllid Cymru ccc ar 22 Ionawr, ac fe'm sicrhawyd gan y ddau sefydliad eu bod yn parhau i archwilio'r cynnig, gyda golwg ar harneisio arian Amcan 1 i sefydlu'r gronfa.

**Hybu'r Iaith Gymraeg**

**C21 Geraint Davies:** A wnaiff Jenny Randerson restru ei blaenoriaethau ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg? (OAQ9052) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sicrhau bod Cyfleusterau Chwaraeon ar Gael**

**C22 Val Feld:** Pa gynlluniau sydd gan Jenny Randerson i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon ar gael yn ardaloedd difreintiedig Cymru? (OAQ9034)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithio'n agos gyda'r holl awdurdodau lleol i sicrhau na anwybyddir anghenion unrhyw ardal.

Dan y cyfarwyddiadau polisi newydd a gyflwynwyd i'r cyrff sy'n dosbarthu arian y loteri, y mae'n ofynnol iddynt sicrhau y dyrennir arian yn ddaearyddol deg ar draws yr ardaloedd.

Mae'r cyngor wedi sefydlu fforwm cynhwysiant cymdeithasol yn y byd chwaraeon, a gall y fforwm hwn fanteisio ar hyd at £8 miliwn o arian loteri dros y pum mlynedd nesaf. Y nod yw cefnogi ffyrdd newydd o

fynd i'r afael â hen broblemau ar lefel leol sy'n rhwystro grwpiau penodol rhag cyfranogi mewn rhaglenni chwaraeon.

Bydd y cyngor yn cynnig cefnogaeth i ymgeiswyr posibl yn y meysydd penodol hynny, gan eu cynorthwyo i lunio ceisiadau loteri priodol.

**Canolfan Mileniwm Cymru**

**C23 Nick Bourne:** A wnaiff Jenny Randerson gyflwyno adroddiad am y datblygiadau diweddaraf o safbwynt Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ9088)

**Jenny Randerson:** Mae'r gwaith o lunio'r manylion a'r ailgynllunio a fwriedir er mwyn datblygu'r cynlluniau ar gyfer y ganolfan i gam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yn dal i fynd rhagddo. Disgwylir canlyniad yr ymarferiad hwn ym mis Ebrill.

**Y Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

**C24 William Graham:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad am y mentrau i annog unigolion neu grwpiau o bobl i ymgorffori mynegiant artistig i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ9078)

**Jenny Randerson:** Mae ymarferiad ymgynghori helaeth a chynhwysol ar y gweill yng nghyswllt y cynigion ar gyfer gweithredu Cymunedau'n Gyntaf, er mwyn galluogi pob sector o'r gymdeithas i gyfrannu eu safbwyntiau a'u syniadau. Bu cyrff celfyddydol a diwylliannol megis Cyngor Celfyddydau Cymru, y Sefydliad Datblygu Cymunedau, y Ffatri Gelfyddydol, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a llawer rhagor yn cyfrannu at y broses.

Cydnabuwyd bod datblygiad celfyddydol a diwylliannol yn weithgareddau perthnasol ar draws ac ar hyd continwwm adfywio a datblygu cymunedau o, yn syml, wneud y gymuned yn lle mwy pleserus i fyw ynddi, i hunaniaeth cymuned, ond hefyd i gynyddu hunanymwybyddiaeth a hunanhyder ar gyfer pobl sydd ar y cyrion ac wedi'u heithrio. Bydd y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn darparu lle ar gyfer y gweithgareddau hyn.

**Annog Pobl i Gymryd Rhan yn y Celfyddydau**

**C25 John Griffiths:** Pa strategaeth y bydd Jenny Randerson yn ei dilyn i annog cymaint â phosibl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru? (OAQ9092) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Annog Pobl i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon**

**C26 John Griffiths:** Pa strategaeth y bydd Jenny Randerson yn ei dilyn i annog cymaint â phosibl i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru? (OAQ9095) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cefnogi Theatrau**

**C27 Alison Halford:** Pa fesurau y mae Jenny Randerson yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau bod theatrau, megis Clwyd Theatr Cymru, yn cael digon o gymorth i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaeth gwerth yr arian y maent yn ei ddarparu i'r cyhoedd? (OAQ9098)

**Jenny Randerson:** Mater i Cyngor Celfyddydau Cymru yw penderfynu ar lefel y gefnogaeth ariannol i'w rhoi i gwmnïau unigol. Mae'r Llywodraeth bartneriaeth wedi rhoi cynnydd sylweddol yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y tair blynedd nesaf, a dylai'r cynnydd hwn ei alluogi i roi ystyriaeth ffafriol i anghenion cyllidebol Clwyd Theatr Cymru.

### Trafodaethau ynghylch Rownd Derfynol Cwpan yr FA

**C28 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae Jenny Randerson wedi eu cael ynghylch rownd derfynol Cwpan FA Lloegr, a gaiff ei chwarae yn Stadiwm y Mileniwm dros y tair blynedd nesaf? (OAQ9037) [W]

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi cymryd rhan mewn trafodaethau â Phrif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac yr wyf yn falch o groesawu a llongyfarch Millennium Stadium ccc am lwyddo i ddenu rownd derfynol Cwpan yr FA i Gaerdydd.

### Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy

**C29 Phil Williams:** A wnaiff Jenny Randerson ddatgan sut y mae'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru? (OAQ9082) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyllid ar gyfer Opera Canolbarth Cymru

**C30 Mick Bates:** Pa gamau ymlaen a gymerwyd o safbwynt darparu cyllid ar gyfer Opera Canolbarth Cymru? (OAQ9038)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi gwybod i'r cwmni ei fod yn rhydd i gyflwyno cais pellach am gyllid, a bydd y Cyngor yn pwyso a mesur y cais hwn yn ôl ei rinweddau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Effaith Nwyon a Ollyngir o BNFL Sellafield ar Gregyn y Môr

**C7 Alun Pugh:** A yw'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi gwneud asesiad o effaith y nwyon sydd yn cael eu gollwng i'r aer o BNFL Sellafield ar bysgod cregyn ar hyd arfordir y gogledd? (OAQ9123) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am fonitro'r effaith a gaiff y nwyon sydd yn cael eu gollwng i'r aer o Sellafield ar bysgod cregyn yng ngogledd Cymru. Dengys y canlyniadau o'r rhaglenni monitro hyn, a gyhoeddir yn flynyddol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban yn 'Ymbelydredd mewn Bwyd ac yn yr Amgylchedd', fod yr holl samplau a gymerir oddi mewn i lefelau derbyniol rhyngwladol.

*Atebwyd cwestiwn 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Y Tymor pan na Chaniateir Pysgota mewn Camlesi

**C9 Lynne Neagle:** A wnaiff Carwyn Jones roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y tymor pan na chaniateir pysgota mewn camlesi? (OAQ9107)

**Carwyn Jones:** Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn dal i wrthwynebu cynnig Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gael gwared â'r tymor pan na chaniateir pysgota ar gamlesi Cymru. Cyfarfu fy swyddogion â'r cyngor a'r asiantaeth ddiwedd yr wythnos diwethaf. Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn, gobeithiaf allu datrys y mater mewn pryd ar gyfer y tymor pysgota nesaf.

### Effaith y Papur Gwyn ar Faterion Gwledig ar Gymru

**C10 Karen Sinclair:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad byr ynghylch sut y bydd y Papur Gwyn ar faterion gwledig yn effeithio ar Gymru? (OAQ9067) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Talu Cymorthdaliadau Fferm yn Ddiymdroi

**C11 David Davies:** Beth y mae Carwyn Jones yn ei wneud i sicrhau bod cymorthdaliadau fferm yn cael eu talu'n ddiymdroi? (OAQ9072)

**Carwyn Jones:** Yr ydym wedi sicrhau gwelliannau sylweddol yn y maes hwn, gan gynnwys llwyddo i gyrraedd targedau cynlluniau y llynedd.

Dan y rhaglen JIGSAW, dylai'r ffaith y sefydlwyd timau aml-sgil, technoleg gwybodaeth newydd a llai o fiwrocratiaeth sicrhau y caiff cymorthdaliadau ffermio eu talu yn fwy effeithlon.

Ar 4 Hydref y llynedd, lansiais, 'Troi Geiriau'n Weithredoedd', sy'n disgrifio cynllun gweithredu i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau i ffermwyr. Dosbarthwyd copi o'r cynllun gweithredu i Aelodau'r Cynulliad ym mis Tachwedd.

### Busnesau Gwledig

**C12 Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan Carwyn Jones i gynorthwyo'r modd y caiff busnesau gwledig eu datblygu? (OAQ9100)

**C18 Kirsty Williams:** A yw Carwyn Jones wedi ystyried ffyrdd posibl o gefnogi busnesau gwledig? (OAQ9099)

**Carwyn Jones:** Disgrifir cynlluniau'r Cynulliad i sicrhau buddsoddiadau mewn busnesau gwledig yng Nghymru yn y ddogfen rhaglennu sengl ar gyfer Amcan 1 a'r cynllun datblygu gwledig. Mae copïau o'r dogfennau ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

Ymysg y mesurau y mae'r grant prosesu a marchnata, y grant proseswyr bwyd bychain (i gefnogi prosiectau sydd o dan y trothwy ar gyfer y grant prosesu a marchnata), y grant gwella ffermydd, y grant menter ffermydd, y grant proseswyr bwyd ffermydd (i gynorthwyo i ddatblygu prosesu gwerth ychwanegol ar raddfa fechan ar-y-fferm), a Cyswllt Ffermio. Bydd yr olaf yn cynnig mynediad at wasanaethau cynghori, gwybodaeth a hyfforddi cydlynol, ynghyd â mecanwaith trosglwyddo technoleg yng Nghymru gyda'r bwriad o ddarparu gwybodaeth ymarferol i ffermwyr ar lefel leol, wedi'i gysylltu â grwpiau a ffermydd arddangos. Bydd hefyd yn cynnig cyngor busnes un i un, rhad ac am ddim, gan gynnwys arolwg o'r busnes ffermio a fydd yn ystyried bob elfen o fusnes y fferm a helpu ffermwyr i benderfynu sut i fwrw eu busnes yn ei flaen. Bydd rheolau ansawdd yn weithredol ar bob elfen o'r cynllun, ac ni chaiff sefydliadau neu unigolion, sy'n methu â chyrraedd a glynu wrth y safonau hyn, gymryd rhan.

Mae'r swyddogion wrthi'n llunio'r union fecanweithiau ar gyfer cyflwyno'r mesurau hyn, gan weithio gyda'r diwydiant ehangach, gan gynnwys undebau'r ffermwyr a chlybiau ffermwyr ifanc Cymru, a disgwylir iddynt gael eu gweithredu yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn hon.

### Cynllun i Ffermwyr Ifanc sydd yn Dechrau Gyrfa mewn Ffermio

**C13 Elin Jones:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ynghylch y methiant i weithredu cynllun i ffermwyr ifanc yng Nghymru sydd yn dechrau gyrfa ym myd ffermio? (OAQ9111) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Defnyddio Lloi o'r Fuches Odro yn y Diwydiant Cig Llo

**C14 Richard Edwards:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran defnyddio lloi o'r fuches odro yn y diwydiant cig llo yng Nghymru? (OAQ9030) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diciâu Buchol mewn Moch Daear a Gwartheg**

**C15 Helen Mary Jones:** Pa gamau penodol y mae Carwyn Jones yn eu hystyried i wneud iawn am y prinder ymchwil digonol ynghylch y cysylltiad posibl rhwng diciâu buchol mewn moch daear a gwartheg yng Nghymru? (OAQ9119) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Marchnadoedd y Ffermwyr a Siopau Pentref Lleol**

**C16 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae Carwyn Jones wedi'u cael ynghylch y berthynas rhwng marchnadoedd y ffermwyr a'r siopau pentref lleol? (OAQ9130) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rheoli'r Defnydd o Chardon LL**

**C17 Peter Black:** Pa awdurdod statudol sydd gan y Cynulliad i reoli'r defnydd o'r india-corn Chardon LL a addaswyd yn enetig? (OAQ9071)

**Carwyn Jones:** Caiff y polisi a'r prif gyfreithiau ar ryddhau pob organedd a addaswyd yn enetig i'r amgylchedd eu pennu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n bosibl i'r Cynulliad gyflwyno sylwadau ar y mater o organeddau a addaswyd yn enetig i Lywodraeth y DU gyda golwg ar ddylanwadu ar ddatblygiad y fframwaith cyfreithiol Ewropeaidd, ond ni all ddeddfu deddfwriaeth na gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith y Gymuned. Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn gweithredu polisi mor gaeth â phosibl ar organeddau a addaswyd yn enetig, oddi mewn i ddeddfwriaeth Cymuned Ewrop a deddfwriaeth ddomestig.

**Goblygiadau LEADER+ ar Ddatblygiad Gwledig**

**C19 Christine Gwyther:** A wnaiff Carwyn Jones roi adroddiad ar gynnydd LEADER+ a'i oblygiadau ar ddatblygiad gwledig yng Nghymru? (OAQ9029) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Delio â Thlodi yn y Cefn Gwlad**

**C20 John Griffiths:** Pa strategaeth y bydd Carwyn Jones yn ei defnyddio er mwyn delio â thlodi yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ9108) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sicrhau Safonau Uchel mewn Bwyd wedi'i Fewnforio**

**C21 Nick Bourne:** A yw Carwyn Jones yn bwriadu cyflwyno unrhyw fesurau er mwyn sicrhau bod bwyd sydd yn cael ei fewnforio yn cyrraedd y safonau uchel a osodir yng Nghymru? (OAQ9125) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd y mae'r cyfrifoldeb dros gynghori'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig ar faterion iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â bwyd, a byddem yn ystyried unrhyw fesurau y mae'r asiantaeth yn eu cynnig yn ofalus. Gwarchodir buddiannau defnyddwyr Cymru o safbwynt diogelwch bwyd gan system o fesurau diogelwch bwyd drwy'r UE-gyfan, sydd yr un mor berthnasol i fwyd o Gymru a Phrydain ac i fwyd sydd yn cael ei fewnforio o weddill yr UE a thu hwnt.

**Cost Llifogydd i Ffermwyr**

**C22 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae Carwyn Jones wedi'u cael ag undebau'r ffermwyr ar gost llifogydd i ffermwyr? (OAQ9122) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynorthwyo Arallgyfeirio yn yr Economi Wledig

**C23 Janice Gregory:** A wnaiff Carwyn Jones amlinellu'r mesurau y mae'r Cynulliad wedi'u rhoi ar waith ar gyfer cynorthwyo arallgyfeirio yn yr economi wledig? (OAQ9033)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiynau 12 a 18 gan Kirsty Williams heddiw (OAQ9100 ac OAQ9099).

### Prisiau Llaeth Isel a Delir i Ffermwyr

**C24 Janet Ryder:** Pa gamau y mae Carwyn Jones yn bwriadu eu cymryd er mwyn delio â'r prisiau llaeth isel sydd yn cael eu talu i'r ffermwyr? (OAQ9121) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gweithredu Erthygl 16 o Gyfarwyddeb 90/220/EEC

**C25 Peter Black:** Pa rym sydd gan y Cynulliad i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i weithredu erthygl 16 o Gyfarwyddeb 90/220/EEC mewn perthynas â Chardon LL yng Nghymru a gweddill y DU? (OAQ9070)

**Carwyn Jones:** Gellir gweithredu erthygl 16 Cyfarwyddeb 90/220/EEC os ceir perygl i iechyd dynol neu'r amgylchedd. Os yw'r Cynulliad yn ymwybodol o dystiolaeth o'r fath, yna byddai'n annog Llywodraeth y DU i weithredu'r grymoedd sydd ganddi dan erthygl 16.

### Cynlluniau ar gyfer Grŵp Strategaeth Wledig

**C26 Karen Sinclair:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad byr ar ei gynlluniau ar gyfer grŵp strategaeth wledig? (OAQ9068) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Effaith y Mesur Hela ar Gymru

**C27 Alun Cairns:** Pa asesiadau diweddar a wnaethpwyd gan Carwyn Jones o effaith y Mesur Hela ar Gymru? (OAQ9069)

**Carwyn Jones:** Cyflwynir y pwnc hwn gerbron y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 7 Chwefror.

### Iawndal Amaeth-arianyddol

**C28 Mick Bates:** Pryd oedd cyfarfod diwethaf Carwyn Jones â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Nick Brown, i drafod hawlio iawndal amaeth-arianyddol? (OAQ9066)

**Carwyn Jones:** Yr oedd iawndal amaeth-arianyddol ymhlith y nifer o faterion a drafodwyd yn y cyfarfod ar gyfer Gweinidogion amaethyddiaeth y DU ar 22 Ionawr.

### Nifer y Swyddi a Gollwyd mewn Amaethyddiaeth

**C29 Glyn Davies:** Faint o swyddi a gollwyd mewn amaethyddiaeth ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf? (OAQ9127)

**Carwyn Jones:** Ni chesglir gwybodaeth am faint o swyddi a gollwyd mewn amaethyddiaeth yn ganolog. Mae amcangyfrifon ar gyfer y tair blynedd diwethaf o nifer y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru ar ddyddiad y cyfrifiad amaethyddol a garddwrol i'w gweld yn y tabl canlynol:

*miloedd*

| Cymru | Mehefin 1998 | Mehefin 1999 | Mehefin 2000 | % y newid o 1998 i 1999 | % y newid o 1999 i 2000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl yn gweithio ar ddaliadau ffermydd | 62.0 | 59.5 | 55.7 | -4 | -6 |

Nodiadau:
1) Gofynna'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol am nifer y bobl sy'n gweithio ar ddaliad y fferm ar ddiwrnod y cyfrifiad ac mae'n cynnwys y categorïau canlynol:

- Ffermwyr, partneriaid, cyfarwyddwyr a'u priod sy'n gweithio ar y daliad;
- Rheolwyr cyflogedig;
- Gweithwyr cyflogedig rheolaidd;
- Gweithwyr digyflog rheolaidd;
- Gweithwyr achlysurol;
- Criw llafur.

2) Caiff y cwymp yn yr amcangyfrif o gyfanswm y llafur ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r cyfrifiad ar gyfer y DU gyfan, fel a welir isod:

*miloedd*

| DU | Mehefin 1998 | Mehefin 1999 | Mehefin 2000 | % y newid o 1998 i 1999 | % y newid o 1999 i 2000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl yn gweithio ar ddaliadau ffermydd | 608.2 | 586.0 | 556.9 | -4 | -5 |

**Gostwng y Nifer Cynyddol o Swyddi a Gollir ar Ffermydd**

**C30 William Graham:** Pa gamau y mae Carwyn Jones yn eu cymryd i ostwng nifer cynyddol y swyddi sydd yn cael eu colli ar ffermydd yng Nghymru, a'r effaith ar y rhai a gyflogir yn y diwydiant cyflenwi amaethyddol? (OAQ9110)

**Carwyn Jones:** Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod nifer y swyddi a gollir yn y tymor hir ar ffermydd yng Nghymru yn cynyddu. Nid yw'r sefyllfa sydd ohoni yn opsiwn i'r diwydiant amaethyddiaeth.

Rhoddwyd tasg i'r grŵp dyfodol ffermio, a sefydlwyd gennyf, i baratoi cyfeiriad dichonadwy tymor hir i gynnal dyfodol ffermio ar draws Cymru. Bydd y grŵp yn cyflwyno ei adroddiad yn fuan. Yn ogystal, mae'r cynllun datblygu gwledig i Gymru a dogfen rhaglennu sengl Amcan 1 yn cynnwys mesurau i gynorthwyo'r diwydiant a chefnogi datblygiad yr economi wledig.